

Nodyn ar y Digwyddiad Astudiaethau Cymreig

Cyflwyniad

1. Cyflwynodd yr Athro Leni Oglesby (aelod o Gyngor CCAUC a Chadeirydd y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd (SETQC)) y digwyddiad gan nodi'r tebygrwydd rhwng Astudiaethau Cymreig a'r broses a ddilynwyd gan Lywodraeth Cymru o ran ysgolion yn ei hymgyngoriad ar y Cwricwlwm Cymreig.

Prif siaradwr

2. Gwnaed prif gyflwyniad gan yr Athro Merfyn Jones, yn nodi cysyniad a datblygiad Astudiaethau Cymreig o safbwynt academydd y gellid cynnwys ei arbenigedd ymchwil o fewn y syniad o Astudiaethau Cymreig. Nododd yr Athro Jones dri phwynt i'r rhai a oedd yn bresennol fod yn ymwybodol ohonynt:
 - Nid oedd y syniad o Astudiaethau Cymreig yn newydd. Bu traddodiad maith o waith ymchwil academaidd, yn enwedig o ran Hanes Cymru, ond prin fu'r pwyslais ar ddysgu ac addysgu. Mae datganoli wedi dechrau newid hyn a cheir cynnydd mewn galw am gyrsiau a modiwlau sy'n canolbwyntio ar elfennau o Astudiaethau Cymreig a rhagor o feysydd pwnc fel Anthropoleg, Daearyddiaeth, y Gyfraith a Gwleidyddiaeth yn cynnig elfen Astudiaethau Cymreig;
 - Roedd rhai rhwydweithiau neu ddarpariaeth a darpariaeth mewn Astudiaethau Cymreig a oedd yn cynnig cyfle i hyn fod yn wirioneddol ddisgybledig neu'n amlddisgyblaeth. Yr her oedd sut i ddod â phynciau at ei gilydd yn y maes hwn, yn enwedig o ystyried nad oedd y system o gyllido mewn prifysgolion yn helpu astudiaethau rhyngddisgyblaeth;
 - Nid oedd angen i Astudiaethau Cymreig fod yn blwyfol nac edrych at i mewn, ac nid ydynt yn gwrthdaro ag agendâu rhyngwladol. Roedd Astudiaethau Cymreig yn cynnig cyfle i roi Cymru yng nghyd-destun y byd ehangach.

Swyddogaeth CCAUC

3. Esboniwyd swyddogaeth CCAUC o ran datblygu Astudiaethau Cymreig a diben y digwyddiad gan Celia Hunt (Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg a Chyllido). Awgrymwyd y dylai'r sector ei hun fod yn gyfrifol am ddatblygu Astudiaethau Cymreig, gan nad oedd yn briodol i CCAUC ymyrryd mewn meysydd cwricwlwm.
4. Roedd CCAUC wedi trefnu'r digwyddiad i sicrhau y gellid cael cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y gallai Astudiaethau Cymreig ei gyflawni ac y gellid cynnal arolwg yn y dyfodol, os yn briodol, a fyddai'n darparu canlyniadau cadarn y gellid eu cyhoeddi. Awgrymwyd y gallai'r Academi Addysg Uwch (AAU) ddarparu cefnogaeth i'r sector i ddatblygu Astudiaethau Cymreig ymhellach. Nodwyd hefyd bod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) yn goruchwyllo'r adolygiad o'r meincnod pwnc ar gyfer y Gymraeg, a oedd yn cynnwys Astudiaethau Cymreig.

Casglu data

5. Darparodd Hannah Falvey (Pennaeth Ystadegau) grynodedb o'r ymarfer casglu data a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2012. Cadarnhaodd y data a ddychwelwyd bod 2183 o fodiwlau ar hyn o bryd y cydnabyddir eu bod yn cynnwys elfen Astudiaethau Cymreig mewn SAUau yng Nghymru ar hyn o bryd, a 297 o fodiwlau yn narpariaeth AU SABau yng Nghymru. Mae hyn yn 7.5% o'r holl ddarpariaeth a gynigir yn y sector SAU.¹
6. Mae nifer o wahanol gafeatau wedi effeithio ar gadernid y data. Gofynnodd y cylchlythyr gwreiddiol am gyfanswm y niferoedd, ond yn y data a ddychwelwyd gwahaniaethodd rhai sefydliadau rhwng astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig, ond ni wnaeth eraill, ac felly roedd y data a ddychwelwyd yn gyfuniad o astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig. Gofynnodd yr arolwg hefyd i sefydliadau "*ddynodi ar gyfer pob un o'r modiwlau a restrir...cyfran y modiwl y byddech yn ei hystyried sy'n Astudiaethau Cymreig*". Mae'n bwysig nodi felly bod y cyfrannau wedi eu seilio ar farn sefydliadau.
7. Roedd canran y ddarpariaeth 'Astudiaethau Cymreig' ym mhob modiwl yn amrywio o sefydliad i sefydliad. Nododd rhai sefydliadau gyfran fwy o fodiwlau ag elfennau Astudiaethau Cymreig nag eraill. Gallai hyn fod oherwydd gwahanol ddeongliadau a dealltwriaeth o'r syniad o Astudiaethau Cymreig neu y gellid cynnwys Astudiaethau Cymreig yn fwy hwylus yng nghwricwlwm ac arbenigedd gwahanol sefydliadau.

Trafodaeth Grŵp

8. Rhannwyd y seminar yn bedwar grŵp i drafod tri chwestiwn yn ymwneud â datblygu a thyfu Astudiaethau Cymreig. Adroddodd pob grŵp yn ôl i'r seminar gyda'i sylwadau wedyn. Dyma grynodedb o'r sylwadau a ddarparwyd gan bob grŵp.
9. Cwestiwn 1 – Trafodwch a datblygwch gyd-ddealltwriaeth o 'beth yw Astudiaethau Cymreig?'
 - Nid oedd unrhyw gyd-ddealltwriaeth o Astudiaeth Cymreig ar y pryd;
 - Roedd yn bwysig cael diffiniad o Astudiaethau Cymreig gan y byddai'n helpu i lunio gwaith mewn mewn SAUau a SABau;
 - Roedd angen eglurhad ar yr hyn y gellid ei gynnwys mewn Astudiaethau Cymreig:
 - A fyddai'n cynnwys y cyd-destun Cymreig neu sut roedd pynciau yn mynd i'r afael â chymdeithas gyfoes yng Nghymru;
 - A fyddai'n cynnwys enghreifftiau astudiaeth achos o Gymru mewn Daeareg, y pwnc Hanes yr Hen Fyd a fyddai'n dyddio yn ôl i oes cyn y syniad o Gymru, neu bynciau a osodwyd yn fframwaith cyfreithiau a pholisiau datganoledig Cymru;
 - Mae angen gwaith ymchwil a chyhoeddiadau ar allbynnau Cymreig penodol;

¹ Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) 2011/12 – Mae'r ffigurau'n cynrychioli nifer y dynodwyr modiwl a ddychwelwyd ar endid modiwl y cofnod myfyrwyr. Gall sefydliadau ddewis dychwelyd modiwlau heb unrhyw gofrestrïadau os byddant yn dymuno.

- Yr hyn a geisiwyd ei gyflawni wrth dyfu Astudiaethau Cymreig;
- Pe na bai Astudiaethau Cymreig yn cael eu creu fel meincnod pwnc yr ASA, a ellid diwygio meincnodau pwnc eraill i adlewyrchu Astudiaethau Cymreig;
- A ddylai agwedd Astudiaethau Cymreig ar bwnc gael ei hasesu ar lefel modiwl neu raglen;
- A oedd galw i Astudiaethau Cymreig gael eu cynnwys mewn mwy o bynciau iddynt fod yn gynaliadwy;
- Roedd Astudiaethau Cymreig yn faes eang iawn yn cynnwys sut yr hyfforddir pobl i weithio mewn gwahanol leoliadau;
- Roedd angen ei ddiffinio'n fwy eglur lle'r oedd potensial i greu meincnodi a lle darparwyd hyfforddiant mewn cyd-destun Cymreig;
- Roedd profiad y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn Astudiaethau Cymreig yn bwysig;
- Roedd angen cael mesur o ba ganran o Astudiaethau Cymreig yn narpariaeth sefydliad yr ystyriwyd oedd yn dda;
- Roedd yn bwysig sicrhau unffurfiaeth o ran diffiniad, a phwy fyddai'n ymateb i'r cais hwnnw am wybodaeth data.

10. Cwestiwn 2 – Sut y dylid datblygu'r syniad o 'Astudiaethau Cymreig'

- Gallai sefydliadau ddiffinio'r hyn y mae Astudiaethau Cymreig yn ei olygu iddyn nhw, a yw'n ymwneud â darpariaeth leol neu'n seiliedig ar arbenigedd lleol;
- A oes angen i Gyngorau Ymchwil ystyried sut y cefnogir y broses o gyllido pethau Cymreig;
- Gellid gwneud hyn yn fwy ymarferol trwy grŵp a arweinir gan waith ymchwil ond byddai angen cyllid ar gyfer hyn i annog academyddion a sicrhau y byddai'r gwaith ymchwil yn llywio gwaith addysgu;
- Gallai newidiadau i gyllid Gwasg Prifysgol Cymru danseilio Astudiaethau Cymreig;
- Roedd y diffyg gwaith ymchwil a grantiau trwy Astudiaethau Cymreig yn niweidiol i'w datblygiad;
- Dylai Astudiaethau Cymreig mewn addysg uwch fod yn gysylltiedig ag agweddau tebyg ar yr holl system addysg, fel y Cwricwlwm Cymreig; cynnwys disgwyliadau ysgolion yn hyn;
- Cyfraniad Astudiaethau Cymreig at gyflogadwyedd graddedigion fel yr addysgu yng Nghymru neu'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru. Pe na bai'r cysylltiadau cyflogadwyedd yn cael eu hyrwyddo, yna ni fyddai digon o alw ymhlith myfyrwyr i'w gwneud yn gynaliadwy;
- A ddylid ei alw'n Astudiaethau Cymru yn hytrach nag Astudiaethau Cymreig;
- Sefydlu rhwydwaith a allai hwyluso'r broses o rannu arfer gorau ledled Cymru;
- A yw'n ymwneud â modelau penodol neu a yw wedi ei ledaenu ar draws y cwricwlwm;

- A ellid cynnwys Astudiethau Cymreig yn y cynllun ffioedd;

11. Cwestiwn 3 – Beth yw'r camau nesaf ar gyfer tyfu 'Astudiaethau Cymreig'?

- Datblygu llwyfan Adnoddau Addysgol Agored i Gymru. Byddai hyn yn galluogi Astudiaethau Cymreig i fwydo i mewn iddo a chysylltu â chasgliadau digidol yng Nghymru. Byddai posibilrwydd o gael Cwrs Ar-lein Agored Enfawr (MOOC) mewn Astudiaethau Cymreig;
- Mae angen mwy o ganolbwynt ar draws yr holl system addysg;
- Gweithio gyda phartneriaid nad ydynt yn rhai traddodiadol, fel yr Amgueddfa Genedlaethol neu'r Llyfrgell Genedlaethol;
- Datblygu rhwydweithiau academiaidd mewn meysydd pwnc neu ar sail rhyngddisgyblaeth i'w ddatblygu. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn effeithiol os caiff ei yrru gan waith ymchwil;
- Mae angen cynnal cyllid ar gyfer Astudiaethau Cymreig;
- Cydbwysu disgwyliadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil gyda gallu hysbysebu gwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar Gymru;
- Byddai sefydlu diffiniad yn ein galluogi i fesur ei dwf a darparu targed eglur;
- Mae angen darganfod a yw'r sefyllfa gyfredol yn annigonol ac a oes angen ei datblygu;
- Mae angen sicrwydd y byddai cyflogwyr yn gweld manteision hyn.